



Solva Community Council Cyngor Cymuned Solfach

Mr I.A. Bowie
Penrhyn
St Brides View
Solfach
SA62 6TB

2 Tachwedd 2021

Cyfeirnod:

- A. Eich neges e-bost dyddiedig 16 Hydref 2021 ynglŷn â Materion CCS.
- B. Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Annwyl Ian a Nigel,

Diolch am eich neges e-bost yng Nghyfeirnod A a'ch llythyr yn gofyn am wybodaeth dan Gyfeirnod B.

Mae'r adendwm yn rhoi ein hymateb. Sylwch, os gwelwch yn dda, nad oes gan CCS ddim gwybodaeth wedi'i chofnodi am yr elusen gofrestredig Solva Edge Festival Ltd (EFL), rhif elusen 1180538, na'r elusen Solva Recreational Ground (SRG) sydd nawr wedi'i dadgofrestru. Dylid cyfeirio unrhyw gais am wybodaeth at EFL neu'r Comisiwn Elusennau.

O fy mhrofiad personol fel aelod sylfaenol o Edge Festival, mae'r digwyddiad a'i effaith ar y pentref wedi bod yn hollol gadarnhaol. Mae'r gymuned wedi derbyn yr ŵyl a'i hamcanion am y 5 mlynedd mae wedi bodoli, gan ddod â cherddorion, actorion, beirdd a pherfformwyr o fri rhyngwladol i'n cymuned, yn ogystal â chyfrannu symiau sylweddol o arian i'r pentref ei hun. Rwy'n siŵr y gallaf siarad ar ran nifer yn y pentref sy'n gwerthfawrogi ei dychwelyd yn frwdfrydig iawn.

Mae CCS yn un o'r cynghorau cymuned mwyaf gweithgar yn Sir Benfro, os nad yng Nghymru, ac mae ein haelodau'n ymgymryd â'u dyletswyddau gan ddilyn cod gweithredu. Mae'r Cyngor yn agored ac yn eglur, rydym yn cyhoeddi'r holl gofnodion yn brydlon, caiff y cofnodion i gyd eu cyhoeddi'n brydlon. Caiff yr holl gyfarfodydd eu hysbysebu'n agored a'u cynnal mewn ffordd sy'n esiampl i gynghorau eraill. Yn ystod y pandemig, parhaodd CCS i gwrdd o bell i gefnogi ein cymuned, ac rydym yn parhau i gynnig mynediad o bell i'n cyfarfodydd.

Rwyf yn dal wedi ymrwmo i gefnogi pobl ein cymuned.

Yn gywir,

J Phillips

Joshua Phillips (Cadeirydd CCS)



Solva Community Council Cyngor Cymuned Solfach

Adendwm dyddiedig 2 Tachwedd 2021: Cais am wybodaeth gan CCS oddi wrth Ian a Nigel Bowie.

- 1. A oes unrhyw aelod o CCS wedi bod yn gyfarwyddwr Edge Festival, ac os felly rhwch enwau'r cyfarwyddwyr, os gwelwch yn dda.**

Ateb CCS: Oes. Josh Philips ac Ifor Thomas (Sylwch: Nid yw'r naill na'r llall nawr wedi'i gofrestru fel un o ymddiriedolwyr yr elusen ac nid ydynt yn ymwneud â'i rheolaeth).

- 2. A oes unrhyw un o gynghorwyr y Cyngor wedi cael unrhyw fudd ariannol o weithredu Edge Festival yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.**

Ateb CCS: Nac oes. Ni chafodd unrhyw aelod o CCS unrhyw fudd ariannol o'r Wyl. Yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol.

- 3. A roddodd CCS unrhyw arian i Edge Festival Ltd? Os felly, rhwch y dyddiadau a'r symiau? Bydd arnom angen copi o'r cofnodion hynny yn cytuno i'r taliad(au) yn dangos pwy bleidleisiodd i wneud y taliadau hynny ynghyd ag unrhyw delerau ac amodau sydd wedi'u gosod ar unrhyw daliadau gan CCS i EFL.**

Ateb CCS: Do. Cyflwynwyd £3,200 i EFL fel arian had yn 2015. Mae telerau a manylion yr arian a gyflwynwyd wedi'u gosod allan yng Nghofnodion mis Mai 2015, sydd wedi'u cysylltu yn unol â'r cais. Ym mis Hydref 2015 talwyd £1,600 yn ôl i CCS gan EFL. (Mae ateb 5 hefyd yn cyfeirio at hyn).

- 4. A wnaeth unrhyw aelod o CCS yn ei swyddogaeth fel cynghorydd neu aelod o EFL neu CCS unrhyw ymholiadau i Elusen Maes Hamdden Solfach (SRGC) yn gofyn iddynt gymeradwyo defnyddio'r meysydd hamdden, neu a aeth hynny yn ei flaen heb gymeradwyaeth?**

Ateb CCS: Naddo. Ni wnaed unrhyw ymholiadau i SRGC yn gofyn am gymeradwyaeth i'r Wyl fynd yn ei blaen.

- 5. A fu unrhyw aelod o CCS a oedd yn ymwneud ag EFL yn codi arian gan y cyhoedd mewn unrhyw ffordd, ac i ble yr aeth yr arian? Pa unigolion a/neu gyrrff a gafodd yr arian hwnnw? A gafodd arian ei dalu i CCS?**

Ateb CCS: Do. Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau i godi arian lle roedd y cyhoedd yn bresennol. Swperau ar thema oedd y rhain. Aeth yr arian i gyd tuag at y costau angenrheidiol i redeg yr ŵyl bob blwyddyn, h.y. hurio pebyll, blaendal i fandiau, costau tocynnau, cyhoedduswydd, ac ati.



Solva Community Council Cyngor Cymuned Solfach

O fis Medi 2016 i fis Ionawr 2019 cafodd CCS £7,826.00 o gronfa grant EFL. Grantiau cyfyngedig oedd y rhain yn benodol i gefnogi Gwasanaethau Ieuenctid Solfach, arddangosfa tân gwyllt Solfach, parciau chwarae Solfach a phrynu tir Solva AFC.

6. Pwy oedd aelodau Elusen Tir Hamdden Solfach ar yr adeg benodol honno, ac os rhoddwyd cymeradwyaeth bryd hynny, mae'n siŵr fod gan CCS dystiolaeth o hynny. Bydd angen inni weld y gymeradwyaeth.

Ateb CCS: Nid yw CCS yn cadw gwybodaeth sydd wedi'i chofnodi am Elusen Tir Hamdden Solfach sydd nawr wedi ei dadgofrestru. Dylid cyfeirio unrhyw gais am wybodaeth at y Comisiwn Elusennau.

7. Pa drafodaethau a fu gan CCS am y ffordd y byddai'r digwyddiad yn cael ei gynnal ar y tir hamdden?

Ateb CCS: Dim.

8. Mae'n ddiddorol sylwi ar eich hysbysiad yn canslo'r cyfarfod cyhoeddus (a oedd i gael ei gynnal ar 27 Mehefin 2021) gan eich bod yn cyfeirio at ddogfennau newydd yn dod i'r fei, ac eto mae eich cofnodion am 2 Mehefin yn cyfeirio at ymateb gan y Comisiwn Elusennau ar 11 Mai 2021. Pa ddogfennau newydd a ddaeth i'r fei? Ai'r weithred rodd ym 1964? Pryd gafodd trosglwyddo'r tir hamdden ei drafod gyntaf gan CCS? A oedd unrhyw gynghorydd yn gwybod am y ddogfen hon cyn Gorffennaf 2021, ac os felly pryd?

Ateb CCS: Roedd ymateb y Comisiwn Elusennau ar 11 Mai yn cadarnhau bod Tir Hamdden Solfach wedi'i dynnu oddi ar eu cofrestr ar 29 Tachwedd 2019. Yn ogystal, roeddent yn cyfeirio at ddarpariaethau adrannau 117-123 yn Neddf Elusennau 2011 ynglŷn â gwaredu tir. Cafodd trosglwyddo'r tir hamdden ei drafod gyntaf gan CCS pan ddaethpwyd i wybod bod y Comisiwn Elusennau wedi dadgofrestru Tir Hamdden Solfach. Tynnwyd sylw CCS at y Weithred gan Fuddiolwyr y Weithred Rodd gan ddweud eu bod am i ofynion y Weithred gael eu bodloni. Natur ymrwymol y Weithred oedd y ffactor a achosodd ganslo'r cyfarfod cyhoeddus a oedd i ddigwydd ar 27 Gorffennaf. Roedd Ifor Thomas yn gwybod am y Weithred Rodd 1964 gan i'r mater gael ei godi gan un arall o'r trigolion adeg yr ail Edge Festival.

9. Yn eich neges e-bost ar 30 Gorffennaf 2021 rydych yn dweud na ofynnwyd erioed i CCS am farn am ddefnyddio'r cae gan Edge Festival. A ydych yn mynnu nad oedd eich cynghorwyr yn gwybod ymlaen llaw



Solva Community Council Cyngor Cymuned Solfach

am gynnwys y ddogfen hon ym 1964? A oedd gan CCS unrhyw farn o gofio am effaith yr ŵyl hon?

Ateb CCS: Yn 2015, pan gafwyd yr arian had EFL nid oedd CCS yn gwybod am y weithred ym 1964. Pan ddaeth gwybodaeth am y Weithred i'r golau mewn blynyddoedd wedyn, barn CCS oedd bod y Weithred yn dod o flaen tir nad oedd CCS yn gyfrifol amdano bryd hynny. Barn CCS oedd bod amcanion EFL yn ateb yn llwyr y cyfrifoldeb yn y Weithred. Roedd Buddiolwyr y Weithred yn cefnogi EFL ac nid oedd Elusen Tir Hamdden Solfach wedi codi unrhyw bryderon gyda CCS.

10. Yn y Weithred Rodd, a oedd aelodau'n gwybod am y cymal yn atodiad cyntaf y ddogfen honno sy'n dweud ".... held upon trust for a recreation ground for the benefit of the inhabitant inhabitants of the Parish of Whitchurch in Dewisland in the county of Pembrokeshire in such manner as the Committee of Management from time to time shall see fit." Mae hyn yn darparu bod gennych chi fel y Cyngor Cymuned ryddid llwyr. Pam na thynnwyd sylw at hyn a pham na roddwyd rhesymau pam na ddefnyddiodd y Cyngor y rhyddid clir a oedd ac sydd ar gael?

Ateb CCS: Teimlai'r Cyngor Cymuned nad oedd defnyddio'r rhyddid yn y mater hwn ar ôl ymgynghori â Buddiolwyr y Weithred yn briodol. Roedd y Buddiolwyr yn gwrthwynebu unrhyw lwybr dros dro ar draws tir a roddwyd yn y Weithred.